**Telerau ac Amodau Llogi Ystafell Gymunedol**

## Ein polisi llogi

- Bydd yr holl drefniadau llogi yn cael eu gwneud drwy staff y llyfrgell a fydd yn cadarnhau ein telerau ac amodau. Mae Llyfrgelloedd Gwynedd yn cadw'r hawl i wrthod archeb heb roi rheswm dros wrthod.
- Wrth logi, byddwn yn gofyn am fanylion, yn cynnwys amserau a chynllun ystafelloedd ac, os yw'n berthnasol, niferoedd a ragwelir. Rhaid gwneud unrhyw newidiadau i archebion o leiaf 14 diwrnod cyn dyddiad eich trefniant llogi.
- Rydym yn cadw'r hawl i ganslo'r trefniant llogi:
    - Os bernir bod y trefniant llogi yn effeithio'n negyddol ar enw da Llyfrgelloedd Gwynedd a Chyngor Gwynedd neu os yw'n groes i werthoedd Cyngor Gwynedd.
    - Os oes gennym reswm dros gredu na fydd eich digwyddiad yn cael ei drefnu yn unol â'r Telerau ac Amodau hyn, neu os bydd yn arwain at dorri amodau trwyddedu neu ofynion cyfreithiol neu statudol eraill.
    - Os oes gennym unrhyw bryderon iechyd a diogelwch sy'n bygwth y gwesteion, aelodau o'r cyhoedd neu staff Llyfrgelloedd Gwynedd.
    - Os yw'r safle wedi dod yn anaddas ar gyfer cynnal eich digwyddiad, er enghraifft, os oes angen gwneud atgyweiriadau i'r adeilad ar frys.
- Os bydd Llyfrgelloedd Gwynedd yn canslo y trefniant llogi, bydd gan y Llogwr hawl i gael ad-daliad llawn ond ni fydd Llyfrgelloedd Gwynedd yn atebol am unrhyw golled neu iawndal uniongyrchol neu anuniongyrchol sy'n deillio o hynny. Nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb i ddarparu na thalu am gyfleusterau eraill mewn mannau eraill.

## Taliad & Canslo

- Os byddwch yn gorfod canslo, gohirio neu aildrefnu eich digwyddiad, ac yn rhoi mwy na 7 diwrnod o rybudd, ni fyddwn yn codi tal. Os caiff ei ganslo o fewn 7 diwrnod neu lai, byddwn yn codi'n llawn arnoch am gost yr ystafell.
- Ar gyfer llogiadau rheolaidd (h.y. y rhai sy'n ailadrodd yn wythnosol neu'n fisol, gellir trefnu taliad bob chwarter. Bydd Cyngor Gwynedd yn eich anfonebu.
- Mae ffioedd llogi yn cael eu hadolygu'n rheolaidd bob blwyddyn. Bydd y sawl sy'n llogi'n rheolaidd yn cael gwybod am unrhyw newidiadau mewn prisiau o leiaf fis cyn i unrhyw newidiadau ddod i rym.

## Trwyddedu a rheoliadau

- Trwy logi ystafell neu ofod yn ein adeiladau, rydych yn cytuno i barchu'r uchafswm niferoedd ar gyfer yr ystafell.
- Mae'r Llogwr yn gyfrifol am ymgyfarwyddo â chapasiti ystafelloedd, lleoliad allanfeydd tân, diffoddyddion tân a phwyntiau larwm.
- Mae'r Llogwr yn gyfrifol am sicrhau bod allanfeydd tân a llwybrau dianc yn aros yn glir ac yn rhydd rhag rhwystr bob amser.

- Nid oes gennym drwydded i werthu alcohol heblaw yn Neuadd Dwyfor, Pwllheli.
- Rhaid i unrhyw ddigwyddiad sy'n ymwneud â gweini alcohol gael Hysbysiad Digwyddiadau Dros Dro (TEN) a rhaid iddo gael ei gytuno ymlaen llaw gan Lyfrgelloedd Gwynedd.
- Rydym yn gweithredu dull dim goddefgarwch mewn perthynas a defnyddio cyffuriau. Bydd unrhyw un a ganfyddir yn defnyddio neu o dan ddylanwad cyffuriau neu sylweddau anghyfreithlon a ddosberthir o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau (1971) yn cael eu hadrodd i'r heddlu a gofynnir iddynt adael y safle.
- Ni chaniateir ysmygu yn unrhyw le yn yr adeilad. Mae hyn yn cynnwys e-sigaréts a vapes.
- Ni ddylid defnyddio unrhyw offer trydanol cludadwy oni bai ei fod wedi cael profion PAT ardystiedig ar gyfer diogelwch trydanol. Os ydych yn dymuno defnyddio offer trydanol, chi sy'n gyfrifol am sicrhau ei fod yn bodloni'r gofyniad hwn.

**Digwyddiadau cyhoeddus**

- Os ydych chi'n llogi lle ar gyfer digwyddiad neu weithgaredd cyhoeddus, bydd disgwyl i chi gael eich Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus eich hun ac wedi gwneud eich asesiad risg eich hun. Efallai y byddwn yn gofyn am weld copïau o'r rhain cyn cadarnhau eich trefniant. Er ein bod yn gwneud pob ymdrech i sicrhau diogelwch ymwelwyr â'n hadeiladau, ni fyddwn yn atebol am unrhyw ddifrod, colled neu anaf sy'n digwydd yn ystod eich digwyddiad, oni bai bod hyn yn ganlyniad uniongyrchol i'n hepgoriadau neu ein gweithredoedd ein hunain.
- Ni ellir coginio bwyd ar y safle heb ganiatâd arbennig. Disgwylir i arlwywyr allanol feddu ar dystysgrifau hylendid bwyd priodol, yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, a chael eu cofrestru fel busnes bwyd.

**Rheoli safleoedd**

- **Rhaid ystyried amseroedd gosod a symud i mewn wrth logi ystafell**.
- Os na fyddwch yn gadael y lle a logir erbyn yr amser y cytunwyd arno, bydd taliadau ychwanegol yn berthnasol.
- Y Llogwr sy'n gyfrifol am gadw'r safle mewn cyflwr da yn ystod y digswyddiad, a sicrhau bod y lle yn cael ei adael mewn cyflwr glân a thaclus wedyn. Gellir codi tal glanhau os nad yw'r safle'n cael ei adael mewn cyflwr addas.

**Storio**

- Ni allwn gynnig cyfleusterau storio ar gyfer grwpiau neu sefydliadau, oni bai bod trefniant arbennig yn cael ei gytuno ymlaen llaw.